

Yes cymru

# Dydy San Steffan ddim yn gweithio!

# Mae dyfodol gwell yn bosibl

**1** Mae **11%*** o rwydwaith rheilffyrdd Cymru a Lloegr yng Nghymru a **5.3%** o'r boblogaeth, ond dim ond **1.6%** o'r cyllid ar gyfer gwella'r rheilffyrdd sy'n cael ei wario yng Nghymru.

**2** Bydd rheilffordd HS2 yn Lloegr yn costio **£106 biliwn**, a **£5.6b** ohono'n cael ei ystyried yn wariant ar Gymru (**£1,800** am bob oedolyn a phlentyn yng Nghymru), er na fydd yr un rhan o'r cledrau yn cael eu gosod yng Nghymru. Yn ogystal, bydd gan y rheilffordd newydd effaith andwyol o dros **£150m*** y flwyddyn ar economi Cymru.

**3** Yn sgil diffyg buddsoddiad a chynllunio gwael, Cymru yw'r unig wlad yn Ewrop lle mae'n rhaid mynd i'r wlad drws nesaf er mwyn teithio rhwng y de a'r gogledd.

Dydy San Steffan ddim yn gweithio i Gymru. Mae gweledigaeth a chynllun cyflawn ar gyfer rheilffyrdd Cymru eisoes wedi'i gyhoeddi.* Bydd annibyniaeth yn rhoi inni'r hyn sydd ei angen i fynd i'r afael â'r mater hwn a materion eraill, i adeiladu rhwydwaith drafnidiaeth sydd o fudd i Gymru ac i greu Cymru decach a gwell i bawb sydd yn byw yma.

* Y Rhwydwaith Rheilffyrdd yng Nghymru – Yr Achos dros Fuddsoddi, Yr Athro Mark Barry 18 Medi 2018.



## Ymunwch â ni

@yescymru
@yescymru #Annibyniaeth
youtube.com/yescymru
facebook.com/YesCymru
www.yes.cymru

A5_flyer.indd 5 25/02/2020 12:52